Catrin Evans
Ysgol Gynradd Llanrhaeadr Ym Mochnant
Llanrhaeadr Ym Mochnant
Powys
SY10 0LG

25/03/2025

Annwyl Catrin Evans

**Ymweliad Interim:** Mawrth 2025

Ymwelodd tîm o arolygwyr ag Ysgol Llanrhaeadr Ym Mochnant yn ddiweddar i ystyried sut mae'r ysgol wedi gwneud cynnydd wrth fynd i'r afael â dau o'r argymhellion o'u harolygiad craidd ym mis Mehefin 2022. Isod, ceir crynodeb o gynnydd yn erbyn yr argymhellion hynny.

Yn ystod yr ymweliad, cawsom gyfle i ymweld â dosbarthiadau, siarad â disgyblion, cyfarfod gydag athrawon ac arweinwyr, craffu ar waith disgyblion, craffu ar ddogfennaeth ac i edrych ar y gwaith mae'r ysgol yn ei wneud i wella. Mae arweinwyr a staff yn yr ysgol wedi gweithio'n fwriadus i fynd i'r afael â'r argymhellion hyn. Maent yn cydnabod bod agweddau i'w datblygu ymhellach.

**Ffocws yr ymweliad**

**Gwella medrau ysgrifennu estynedig disgyblion**

- Mae arweinwyr yn ystyried amrediad eang o dystiolaeth wrth fonitro'r argymhelliad fel rhan o'r prosesau hunan wella. Mae'r staff cyfan yn cyfrannu at weithdrefnau hunanwerthuso yr ysgol ac mae ganddynt ddealltwriaeth gadarn o'r hyn sydd angen ei wella i gefnogi medrau ysgrifennu estynedig disgyblion. Er enghraifft, mae staff yn datblygu medrau llafar disgyblion yn y lle cyntaf cyn mynd i'r afael â gwella eu medrau ysgrifennu estynedig.

- Mae arweinwyr wedi creu diwylliant ac ethos cynhyrchiol i hybu a chefnogi dysgu proffesiynol staff i ddatblygu medrau ysgrifennu disgyblion. Maent yn cynnal cyfleoedd buddiol iddynt gymryd rhan mewn ystod dda o hyfforddiant amserol.
- Mae staff yn cynllunio'n fwriadus ar gyfer datblygu medrau ysgrifennu'r disgyblion. Maent wedi datblygu dulliau clir i gefnogi datblygiad medrau ysgrifennu estynedig disgyblion, er enghraifft 'y wal angori' a'r 'wal gwell fyth'. Ar y cyfan, mae athrawon yn monitro amrediad y ffurfiau ysgrifennu estynedig yn addas wrth i'r themâu dysgu ddatblygu.
- Mae cysondeb clir yn y ddarpariaeth ar draws yr ysgol. Mae llawer o ddisgyblion yn hyderus wrth ddefnyddio'r adnoddau amrywiol i drafod a gwella eu gwaith. O ganlyniad, mae medrau ysgrifennu estynedig llawer o ddisgyblion yn datblygu'n gadarn. Maent yn ysgrifennu at wahanol ddibenion yn effeithiol gan ddefnyddio ffurfiau a geirfa bwriadus gan addasu eu gwaith yn bwrpasol.

**Gwella ansawdd a chysondeb adborth athrawon i sicrhau bod disgyblion yn gwybod beth i'w wneud i wella eu gwaith**

- Mae'r holl staff wedi ymgymryd yn gydwybodol gyda'r broses o werthuso effeithiolrwydd adborth athrawon ar draws yr ysgol. Drwy adnabod yr hyn sydd angen gwella, mae athrawon yn sicrhau cysondeb ar draws yr ysgol wrth iddynt gynnig adborth fuddiol i ddisgyblion.
- Mae athrawon yn dechrau annog y disgyblion ieuengaf i feddwl am eu gwaith. Maent yn eu cynorthwyo i adnabod agweddau sydd yn dda am eu dysgu a'r agweddau sydd angen eu gwella.
- Mae'r disgyblion hŷn yn dod yn fwy ymwybodol o ansawdd a safon eu gwaith. Mae athrawon yn gwneud defnydd effeithiol o bartneriaid trafod ac mae disgyblion yn gwerthuso gwaith eu hunain a'u cyfoedion er mwyn eu cefnogi i wneud cynnydd yn eu dysgu. O ganlyniad, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn adnabod beth maent yn ei wneud yn dda, yr hyn sydd angen iddynt wella, a phan bod angen cymorth arnynt. Er enghraifft, mae bron bob disgybl yn gwneud defnydd effeithiol o'r waliau dysgu er mwyn gwella ansawdd a safon eu gwaith.
- Mae gan y rhan fwyaf o'r disgyblion hŷn ddealltwriaeth gadarn o brosesau adborth yr ysgol. Maent yn deall eu pwrpas ac yn ymateb yn frwd iddynt. Maent yn falch iawn o'u gwaith ac yn gallu cyfleu eu proses dysgu a sut maent wedi gwella eu gwaith yn hyderus.

Gellir dod o hyd i adroddiad arolygu craidd diweddaraf yr ysgol/UCD a gwybodaeth bellach am broses a phwrpas ymweliadau interim ar ein gwefan: http://www.estyn.llyw.cymru/darparwr/6662146

Yn gywir

LMiles.

**Liz Miles**
Cyfarwyddwr Cynorthwyol